# Ymateb WLGA i Ymholiad Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i rôl Cymru ym mhroses gwneud penderfyniadau'r UE

Mehefin 2013

WLGA • CLlLC

# CYFLWYNIAD

1. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA/CLlLC) yn cynrychioli'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, ac mae'r tri awdurdod parc cenedlaethol a'r tri awdurdod tân ac achub yn aelodau cyswllt.

2. Ei nod yw darparu cynrychiolaeth i awdurdodau lleol oddi fewn i fframwaith polisi sy'n datblygu ac sy'n boddhau blaenoriaethau allweddol ei haelodau, yn ogystal â darparu ystod eang o wasanaethau sydd yn ychwanegu gwerth at Lywodraeth Leol yng Nghymru a'r cymunedau y maent yn eu cynrychioli.

3. Mae WLGA yn croesawu'r cyfle i gyfrannu i'r Ymholiad pwysig ac amserol hwn. Mae'r ymateb ysgrifenedig yma yn dilyn cyfarfod gydag aelodau'r Pwyllgor ar 17 Mehefin, a oedd yn gyfle da i gyfnewid syniadau ac asesu'r sefyllfa bresennol parthed rôl Cymru ym mhroses gwneud penderfyniadau'r UE.

4. Er fod yr Ymholiad yn edrych ar sut y mae Cymru yn cymryd rhan ym mecanweithiau gwneud penderfyniadau ar lefel yr UE, mae WLGA yn tanlinellu o'r cychwn ein cefnogaeth gref am aelodaeth barhaus Cymru yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae cyllid yr UE wedi gwneud cyfraniad anferthol i ddatblygiad economaidd Cymru ac wedi helpu i ddarparu swyddi, tyfiant ac adfywiad ar gyfer ein cymunedau ar draws Cymru. O ystyried y cyllidebau domestig gostyngedig sydd yn wynebu ein hawdurdodau lleol yn yr hinsawdd economaidd heriol gyfoes mae WLGA yn pwysleisio'r angen i Gymru wneud y mwyaf o'r cyfleoedd a ddaw o holl ffrydiau ariannu yr UE wrth i ni gynllunio ymlaen i'r cyfnod rhaglenni 2014-2020.

5. Mae WLGA wedi sefydlu Swyddfa Ewropeaidd ym Mrwsel ers 2003 ac yn cydnabod gwerth cael swyddfa gynrychioladol yng nghalon yr UE. Gyda tua 60% o ddeddfwriaeth ddomestig yn cychwyn ym Mrwsel, mae'r swyddfa yn monitro deddfwriaeth arfaethedig yr UE ac yn edrych am ffyrdd i ddylanwadu ar unrhyw deddfwriaeth gyda goblygiadau i'n hawdurdodau lleol yng Nghymru cyn gynted â phosib. Gyda'n cyfeillion o Lywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac

Addysg Uwch Cymru, mae'r swyddfa yn ffurfio rhan o Dŷ Cymru, gan roi presenoldeb gweledol mawr-ei-angen i Gymru ym Mrwsel.

6. Rydym wedi cefnogi ymagwedd 'Tîm Cymru' ym Mrwsel ers tro a rydym yn ymrwymedig i weithio gyda'n partneriaid o Gymru ar faterion o ddiddordeb cyffredinol, yn ogystal ag hyrwyddo Cymru gymaint â phosib. Gweithiwn yn dda gyda'n partneriaid o Gymru i ddatblygu a hyrwyddo y brand 'Cymreig' ym Mrwsel. Deallwn bwysigrwydd gweithio gyda'n partneriaid o Gymru ac atgyfnerthu safbwynt Cymru ar fater penodol. Yn wir, ar rai adegau, ac ar rai faterion penodol, gallwn ymgymryd â negeseuon allweddol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cefnogi ond nid ydynt yn eu dilyn bob amser o ganlyniad i gyfyngiadau natur eu perthynas fel Gweinyddiaeth Ddatganoledig o fewn y D.U. Mae hyn yn wir yn enwedig pan fo pleidiau gwahanol yn gweinyddu yng Nghaerdydd a Llundain, pan fo cydweithredu "yn ddibynnol ar ewyllys da y ddwy lywodraeth"[1].

7. Nid yw Cymru yn Aelod o'r UE, a nid oes ganddi 'sedd lawn at y bwrdd' i ddylanwadu ar benderfyniadau yn yr un modd ag Aelodau'r UE. O ganlyniad rhaid i Gymru weithio o fewn ei fframwaith cyfansoddiadol a chwilio am ffyrdd eraill i ddylanwadu ar benderfyniadau sy wrth graidd mecanweithiau gwneud penderfyniadau'r UE, sef y 'triongl' rhyng-sefydliadol rhwng y Comisiwn Ewropeaidd, Cyngor yr UE a Senedd Ewrop. Gyda dau ddeg wyth Aelod o'r UE (o fis Gorffennaf 2013), 241 rhanbarth yr UE a phedair gwlad o fewn y D.U. i gyd yn cystadlu am lobïo, cyllid ac adnoddau o fewn maes yr UE, mae'n hollbwysig fod Cymru yn barod ac wedi paratoi'n ddigonol i gystadlu gyda rhanbarthau a gwledydd eraill pan gaiff penderfyniadau allweddol eu gwneud.

**Llywodraeth y D.U.**

8. Y llwybr mwyaf nodedig i Gymru yw gweithio trwy Llywodraeth y D.U., ym Mrwsel drwy Gynrychiolaeth Barhaol y D.U. i'r UE (UKREP) ac yn Llundain trwy adrannau perthnasol Whitehall.

[1] http://www.clickonwales.org/wp-content/uploads/Chapter_8.pdf

9. Yn nhermau deddfwriaeth yr UE, mae gan Gymru dair prif rôl ar hyn o bryd: gweithredu cyfarwyddebau'r UE yn y meysydd ble mae ganddi rym deddfwriaethol, cydymffurfio â chyfreithiau'r UE o fewn ystod pwerau deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, a monitro'r egwyddor cyfrifiolaeth ac adrodd yn ôl i Senedd San Steffan ar unrhyw faterion penodol[2]. Os buasai i unrhyw ddeddfwriaeth yr UE effeithio ar Gymru yna cefnogwn yn llawn ymdrechion ein cyfeillion Llywodraeth Cymru i lobïo ac ymyrryd ar y darn hwn o ddeddfwriaeth, pa un ai rheoliadau, cyfarwyddebau neu benderfyniadau yr UE ydynt ai pheidio, a sicrhau fod buddiannau Cymru yn cael eu cydnabod a'u deall yn llawn gan Lywodraeth y D.U.

10. Er enghraifft, roedd angen lobïo cadarn gan Lywodraeth Cymru yn ystod trafodaethau Llywodraeth y D.U. ym mis Mawrth 2013 ar ddosbarthiad Cronfeydd Strwythurol yr UE yn y D.U. ar gyfer y cyfnod 2014-2020. Cafodd y canlyniad (€2.145 biliwn o fuddsoddiad cyfangwbl o €11 biliwn) ei ystyried yn helaeth yn bositif i Gymru ac yn dangos yr angen am strategaeth lobïo gref ac effeithiol i hyrwyddo ac amddiffyn diddordebau Cymru. Cefnogwn ymrwymiad Llywodraeth Cymru, fel ag a amlinellwyd yn ei Strategaeth yr UE ym mis Mai 2012, i barhau i weithio'n agos ac yn adeiladol gyda Llywodraeth y D.U. ar ddatblygu a gweithredu deddfwriaeth[3].

11. Mae'n ymddangos fod gan swyddogion Llywodraeth Cymru berthynas dda gyda swyddogion UKREP ym Mrwsel yn gyffredinol a bod adrannau UKREP yn cydnabod materion allweddol gan Lywodraeth Cymru yn gyffredinol. Mae gan swyddogion Llywodraeth Cymru gysylltiadau wedi'u sefydlu'n dda gyda'u cyfeillion perthnasol yn swyddfeydd Gogledd Iwerddon a'r Alban ym Mrwsel ac mae hyn hefyd yn bwysig i lobïo ar faterion o ddiddordeb cyffredinol.

12. Mae gan WLGA hefyd gysylltiadau uniongyrchol wedi'u sefydlu'n dda gyda swyddogion UKREP a rydym hefyd yn ceisio cael y mwyaf o'r berthnasau yma pan fo deddfwriaeth yr UE yn effeithio ar lywodraeth leol yng Nghymru yn enwedig.

## Comisiwn Ewropeaidd

[2] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/contents
[3] http://wales.gov.uk/docs/caecd/publications/120531eustrategyfinalmay12cy.pdf

13. Mae lobïo uniongyrchol gyda swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd hefyd yn bwysig ac yn cael ei gefnogi, yn enwedig y swyddogion desg gyda chyfrifoldebau penodol ar gyfer Cymru e.e. y Cronfeydd Strwythurol a datblygu gwledig. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru, yn ogystal â swyddogion WLGA, wedi sefydlu dolenni gweithio da gyda swyddogion allweddol o'r Comisiwn ac ymatebwn i ystod eang o ymgynghoriadau'r Comisiwn mewn nifer o feysydd polisi er mwyn darparu sylwadau llywodraeth leol Cymru ar ddarn o ddeddfwriaeth arfaethedig.

14. Anogwn hefyd y nifer mwyaf posib o weision sifil o Gymru i ymuno â'r Comisiwn Ewropeaidd. Rydym wrth ein boddau i weld Lowri Evans o Gymru, er enghraifft, yn dylanwadu ar bolisi mewn materion arforol a physgodfeydd fel Cyfarwyddwraig-Gyffredinol a gobeithiwn weld mwy o swyddogion o Gymru yn dylanwadu ar y Comisiwn 'oddi fewn' yn y dyfodol.

15. Cefnogwn yn llawn y cysylltiadau parhaus rhwng Gweinidogion Llywodraeth Cymru a Chomisiynwyr yr UE a chydnabyddwn gwerth cynnal y cyfarfodydd yma yng Nghymru ac ym Mrwsel er mwyn dangos fod gan Gymru sialensau, cryfderau, blaenoriaethau a phryderon ei hun ynglyn â deddfwriaeth a rhaglenni cyllid yr UE. O ystyried pwysigrwydd parhaus cyllid yr UE i Gymru rydym yn falch i weld y portffolio Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn cael ei uwch-raddio i lefel Gweinidogol llawn Llywodraeth Cymru er ein bod yn dal i bryderu y bydd rhannu'r portffolio Cronfeydd Ewropeaidd rhwng y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd a'r Gweinidog Cyllid yn atal integreiddio rhwng y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn Rhaglenni'r UE 2014-2020 i Gymru.

16. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd gweithio gyda swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghaerdydd a gwneud pob ymdrech i ddenu Comisiynwyr yr UE a swyddogion allweddol y Comisiwn i Gymru, gan sicrhau fod y Comisiwn a'r holl bartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), llywodraeth leol, addysg uwch a'r sector wirfoddol, yn gweithio gyda'i gilydd tuag at yr un amcanion ar faterion Ewropeaidd.

17. Fel rhan o hyn mae angen i bob partner 'codi'n gem' yn nhermau gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i Gymru o fentrau ehangach y'i hyrwyddir gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae hyn angen cynnwys ymagwedd ehangach na'r pwyslais traddodiadol o wneud y mwyaf o gyfleoedd a ddaw o'r Cronfeydd Strwythurol a'r Polisi Amaeth Cyffredin er mwyn sicrhau fod Cymru yn manteisio ar nifer eraill o fentrau polisi a chyllid, megis y rhaglenni thema ar gyfer y cyfnod rhaglenni 2014-2020, gan gynnwys Gorwel 2020; Erasmus i Bawb; Cydweithredu Tiriogaethol; LIFE; a COSME ayb.

18. Cefnogwn ac anogwn hefyd yn llawn gyfranogiad dinasyddion Cymru yn y fenter dinasyddion Ewropeaidd[4]. Dyma ffordd uniongyrchol o alluogi ein dinasyddion i ymuno â phobl ar draws yr UE i leisio barn a galw ar y Comisiwn i gynnig deddfwriaeth ar fater penodol.

## Cyngor yr UE

19. Cefnogwn hefyd yn llawn gyfranogiad Gweinidogion Llywodraeth Cymru yng Nghyd-bwyllgor Gweinidogol y D.U. ar Ewrop a chyfarfodydd Cyngor yr UE er mwyn hyrwyddo ac amddiffyn diddordebau Cymru. Cydnabyddwn fodd bynnag fod dylanwad Cymru yng nghyfarfodydd y Cyngor yn gyfyng gan fod yn rhaid i Gymru rannu 'sedd' y D.U. gyda Gweinidog Llywodraeth y D.U. (er nad yw'r Gweinidog ond yn Weinidog yn Lloegr mewn rhai ardaloedd polisi) yn ogystal â Gweinidogion o'r gweinyddiaethau datganoledig eraill yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

20. Fel ag a adnabuwyd gan Brif Weinidog Cymru Carwyn Jones AC yr Hydref ddiwethaf[5], hoffai WLGA weld rôl Gweinidogion Llywodraeth Cymru a llywodraethau datganoledig yn cael ei chryfhau yng nghyfarfodydd y Cyngor gan y cydnabyddwn nad yw safbwynt Llywodraeth y D.U. bob amser yn cyd-fynd gyda safbwyntiau Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol Cymru. Er enghraifft, ynglyn â'r trafodaethau parhaol ar gyllid yr UE 2014-2020, y Fframwaith Ariannol Aml-Flynyddol (FfAA), mae WLGA, yn wahanol i Lywodraeth y D.U., yn cefnogi cyllid cadarn a chryf i'r UE yn y cyfnod rhaglenni nesaf i ddarparu swyddi a thyfiant economaidd mawr eu hangen yn ein cymunedau, ac mae'n

[4] http://ec.europa.eu/citizens-initiative/public/welcome
[5] http://wales.gov.uk/newsroom/articles/firstminister/121112futureunion/?skip=1&lang=cy

hollbwysig fod yna ddigon o ffyrdd i Gymru fedru mynegi, amddiffyn a lobïo safbwynt ei hun, yn enwedig ar adeg pan fo cronfeydd yr UE cymryd arnynt fwy o bwysigrwydd wrth ystyried graddfa y gostyngiadau mewn cyllidebau cyfalaf domestig yn enwedig.

21. Mae gallu Llywodraeth Cymru i chwarae rôl ym mhroses ffurfio polisi Ewropeaidd y D.U. yn parhau felly i fod yn sialens allweddol i gryfhau rôl Cymru ym mhroses gwneud penderfyniadau'r UE[6].

**Senedd Ewrop**

22. Mae Llywodraeth Cymru ac WLGA hefyd yn ceisio dylanwadu ar benderfyniadau trwy ein pedwar ASE o Gymru yn Senedd Ewrop. Er fod pedwar ASE ymysg dros 750 yn nifer fach iawn ni allwn danbrisio dylanwad ein ASE o Gymru, yn enwedig mewn meysydd polisi, megis y rheoliadau polisi cydlyniant, sydd yn mynd trwy'r broses ddeddfwriaethol cyd-benderfynu, ble mae gan y Senedd bwerau sylweddol.

23. Mae gennym berthynas wedi'i sefydlu'n dda gydag ASEau Cymru a chadwn mewn cyswllt yn rheolaidd, yn enwedig ar feysydd polisi sy'n fwyaf perthnasol lywodraeth lleol Cymru, megis polisi cydlyniant, cyllid cynhwysfawr yr UE a'r Polisi Amaeth Cyffredin. Mae sicrhau llefydd i'n ASEau ar y pwyllgorau perthnasol, megis Datblygu Rhanbarthol (REGI), y Pwyllgor Cyllid (BUDG) a'r Pwyllgor Amaeth a Datblygu Gwledig (AGRI), a'u gweld hwy yn arwain ar adroddiadau dylanwadol yn ffordd ddefnyddiol iawn i sicrhau fod sylwadau Cymru yn cael eu clywed a'u cydnabod ac felly'n gweithio gyda'n ASEau, yn ogystal ag ASEau eraill dylanwadol, yn hollbwysig.

24. Mae'n destun siom nad oes gan Senedd Ewrop, yn wahanol i Gaeredin a Llundain, swyddfa gynrychioladol yng Nghaerdydd a gobeithiwn y bydd y Senedd yn ailystyried hyn yn y dyfodol er mwyn helpu i feithrin cydweithredu rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a Senedd Ewrop ac hyrwyddo ymwybyddiaeth ymysg dinasyddion Cymru ynglyn â gwaith y Senedd.

**Lobïo Llywodraeth Leol/Rhanbarthol**

---

[6] http://www.clickonwales.org/wp-content/uploads/Chapter_8.pdf

25. Yn ogystal â'r lobïo a sianelir trwy Lywodraeth y D.U., mae gan Gymru ffyrdd eraill o ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir ar lefel yr UE. Ar lefel llywodraeth leol, mae WLGA yn lobïo yn aml ar ddarn penodol o ddeddfwriaeth gyda'n cyd-Gymdeithasau Llywodraeth Leol trwy'r Gymdeithas ban-Ewropeaidd, y Cyngor Bwrdeistrefi a Rhanbarthau Ewropeaidd (CEMR).

26. Gyda'r Rhwydwaith Awdurdodau Lleol Ewropeaidd (ELAN) a chydweithredu agos gyda'r Cymdeithasau Llywodraeth Leol yn cynrychioli Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, rydym o'r farn fod gweithio trwy CEMR yn ffordd ddefnyddiol o lobïo a bod llais cryf unedig o lywodraeth leol Ewropeaidd yn medru fod yn effeithiol iawn, er enghraifft, ar gryfhau rôl awdurdodau lleol a rhanbarthol trwy'r Egwyddor Partneriaeth yn y rheoliadau polisi cydlyniant ar gyfer rhaglenni'r UE yn y dyfodol[7].

## Pwyllgor y Rhanbarthau a'r Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewropeaidd

27. Mae gennym hefyd ddau aelod ym Mhwyllgor y Rhanbarthau (PyRh) a, gyda'n dau aelod yn cynrychioli'r Cynulliad Cenedlaethol, maent yn ceisio dylanwadu ar adroddiadau a gynhyrchir gan PyRh sydd yn ymateb i gynigion deddfwriaethol yr UE sydd yn effeithio ar awdurdodau lleol a rhanbarthol. Ffordd arall yw sicrhau adroddiadau *rapporteur* i'n haelodau, gan sicrhau fod Cymru yn arwain ac yn dylanwadu ar adroddiadau ar ran llywodraeth leol a rhanbarthol Ewropeaidd.

28. Mae adroddiadau diweddar ar y cysylltiadau rhwng buddsoddi preifat a chyllid cyhoeddus ar lefel leol/ranbarthol gan Rhodri Glyn Thomas AC a strategaeth newydd seiber-ddiogelwch yr UE gan Lefarydd Materion Ewropeaidd WLGA, y Cyng. Bob Bright, yn dangos y pwysigrwydd parhaus i sicrhau bod ein haelodau yn arwain ar adroddiadau PyRh.

29. Y sialens, fodd bynnag, yw sicrhau fod y 'triongl' y soniwyd eisoes amdano sy wrth graidd proses gwneud penderfyniadau yr UE yn cydnabod ac yn derbyn safbwyntiau

[7] http://www.ccre.org/en/communiques/view/356

PyRh yn llawn yn ogystal â rheini o'r Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewropeaidd, ble gan Gymru hefyd gynrychiolaeth.

## Nodiadau wrth gloi

30. Mae WLGA yn cydnabod y gall Cymru gwneud mwy i ddylanwadu ar benderfyniadau ar lefel yr UE, ond yn cydnabod y rhwystrau hir dymor i gyflawni hyn. Mae gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru yn gymharol fach a gallasai, gydag adnoddau, arbenigedd a gallu ychwanegol, wneud mwy i fonitro a ddylanwadu ar ddeddfwriaeth yr UE ar draws ystod ehangach o feysydd polisi. Mae'n hollbwysig fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn llwyr ymwybodol o bwysigrwydd deddfwriaeth yr UE a sut y mae'n effeithio ar eu meysydd polisi. Byddai canllaw tebyg i'r un a baratoir i swyddogion Llywodraeth yr Alban[8] yn medru bod yn ddefnyddiol i godi ymwybyddiaeth a integreiddio yn well bolisi domestig a'r UE. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu nifer y swyddogion ym Mrwsel yn ddiweddar ac mae'n hanfodol ei bod yn gwneud y mwyaf o swyddfa'r UE er mwyn cryfhau presenoldeb Cymru ar y llawr.

31. Fel ag a amlinellwyd yn Strategaeth yr UE Llywodraeth Cymru, croesewir cyhoeddiad Adroddiadau Blynyddol a Rhaglenni Gwaith i adlewyrchu Rhaglen Waith a Deddfwriaethol y Comisiwn fel ffordd o fonitro cyflawniadau Cymru a chynnydd ar faterion yr UE.

32. Byddai cyfathrebu safbwynt Llywodraeth Cymru ar ddarn penodol o ddeddfwriaeth yr UE nid yn unig i gyfeillion Llywodraeth y D.U. ond hefyd i bartneriaid eraill megis WLGA trwy, er enghraifft, briffiau byr yn tebyg i Femoranda Eglurhaol Llywodraeth y D.U., a gwneud gwell defnydd o adran Ewrop gwefan Llywodraeth Cymru[9] hefyd yn fanteisiol, er mwyn sicrhau fod yr holl bartneriaid sydd yn gweithio yn yr arena Ewropeaidd, yng Nghymru ac ym Mrwsel, yn llwyr ymwybodol o safbwynt Llywodraeth Cymru.

33. Ynglyn â rhwystrau i gymryd rhan, mae llywodraeth leol Cymru yn wynebu sialensau tebyg, ble mae rhaid i'n swyddogion yn y Gymdeithas ac awdurdodau lleol

---

8 Llywodraeth yr Alban 'Influencing and implementing EU obligations', 3$^{ydd}$ cyhoeddiad, 2012
9 http://wales.gov.uk/topics/international/europeanaffairs/?skip=1&lang=cy

flaenoriaethu yr agenda ddomestig a/neu gofynion cyson paratoi, gweithredu a rhedeg mentrau a phrosiectau y'u hariennir yn ddomestig neu gan yr UE. Nid yw monitro a dylanwadu ar ddeddfwriaeth arfaethedig yr UE yn cael eu blaenoriaethu yn aml nid oherwydd diffyg diddordeb a chyfranogiad ond oherwydd cyfyngiadau yn ymwneud ag amser, gallu ac adnoddau.

34. Wrth gloi, mae'n rhaid i Gymru fod yn ddeallus ac yn hyblyg i ymdopi â'r newidiadau cyflym yn nhirwedd symudol yr UE. Mae'r hinsawdd wleidyddol gyfredol ynglyn ag aelodaeth y D.U. o'r UE ac enghreifftiau diweddar o ymraniad rhwng safbwyntiau Llywodraethau Cymru a'r D.U. yn ei gwneud hi'n bwysicach fyth i Gymru leisio'i barn ym mhroses gwneud penderfyniadau yr UE. O ystyried nad yw Cymru yn Aelod o'r UE mae'n rhaid iddi barhau i 'godi'i gem' a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir ar lefel yr UE a chymryd rhan mewn modd "weithredol a gweledol", fel ag a amlinellwyd yn Strategaeth yr UE Llywodraeth Cymru.

35. Mae WLGA yn cefnogi bwriad yr Ymholiad i gysylltu ac ymgynghori gyda gwledydd a rhanbarthau eraill, megis Yr Alban, Gogledd Iwerddon, Fflandrys a Chatalwnia, i ddysgu mwy am sut y maent yn dylanwadu ar broses gwneud penderfyniadau yr UE ac os y gall Cymru wneud mwy yn y cyd-destun hwn. Mae WLGA yn ymrwymedig i weithio gyda'n partneriaid o Gymru a sicrhau ein bod i gyd yn gweithio gyda'n gilydd tuag at yr un nôd: i roi llais cryf i Gymru a dylanwadu ar benderfyniadau'r UE gymaint â phosib.

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:**

Lowri Gwilym – Rheolwr Tîm Ewrop ac Adfywio (Ffôn: 029 2046 8676)
**lowri.gwilym@wlga.gov.uk**

Iwan Williams – Rheolwr Materion Ewropeaidd, Swyddfa Brwsel
**iwan.williams@wlga-brussels.org.uk**

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
Caerdydd CF10 4LG